TAG UG/SAFON UWCH

cbac
wjec

TAG UG/SAFON UWCH CBAC

# CYMRAEG AIL IAITH

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

# DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

Addysgu o 2016

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

# I'w addysgu o 2016

# TAG UG a Safon Uwch
# CYMRAEG AIL IAITH

# DEUNYDDIAU ASESU
# ENGHREIFFTIOL

© WJEC CBAC Cyf.

# Cynnwys


**Tudalen**

**PAPURAU CWESTIWN ENGHREIFFTIOL**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | **–** | Arholiad Llafar – Y Ffilm a Llafaredd | **5** |
| **Uned 2** | **–** | Asesiad Diarholiad | **9** |
| **Uned 3** | **–** | Papur Ysgrifenedig – Defnyddio Iaith, a Barddoniaeth | **13** |
| **Uned 4** | **–** | Arholiad Llafar – Y Ddrama a Llafaredd | **19** |
| **Uned 5** | **–** | Papur Ysgrifenedig – Y Gymraeg yn y Gymdeithas a Thrawsieithu | **23** |
| **Uned 6** | **–** | Papur Ysgrifenedig – Defnyddio Iaith a'r Stori Fer | **27** |

**CYNLLUNIAU MARCIO ENGHREIFFTIOL**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | **–** | Arholiad Llafar –Y Ffilm a Llafaredd | **31** |
| **Uned 2** | **–** | Asesiad Diarholiad | **37** |
| **Uned 3** | **–** | Papur Ysgrifenedig – Defnyddio Iaith, a Barddoniaeth | **39** |
| **Uned 4** | **–** | Arholiad Llafar – Y Ddrama a Llafaredd | **45** |
| **Uned 5** | **–** | Papur Ysgrifenedig – Y Gymraeg yn y Gymdeithas a Thrawsieithu | **51** |
| **Uned 6** | **–** | Papur Ysgrifenedig – Defnyddio Iaith a'r Stori Fer | **57** |


© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG: AIL IAITH**

**UNED 1**

**Y FFILM A LLAFAREDD**

***(Arholiad Llafar)***

**NODIADAU I ATHRAWON A CHWESTIYNAU ENGHREIFFTIOL**

(Tua 35 munud i grŵp o 3)

© WJEC CBAC Cyf.

**Trefn yr arholiad**

**A. Trafod ffilm [40]**

*Patagonia*

Gall yr arholwr ofyn i'r ymgeiswyr ymdrin â phynciau megis y rhai a ganlyn:

- trafod cymeriadau, a chymharu cymeriadau â'i gilydd
- trafod golygfeydd arbennig
- manylu ar y defnydd o lun a sain a cherddoriaeth gefndirol
- trafod bwriadau'r cynhyrchydd
- trafod themâu penodol
- mynegi barn ac ymateb i'r gwaith

Arholir yr ymgeiswyr mewn pâr/ grŵp o dri yn yr adran hon.

Bydd gan CBAC yr hawl i ychwanegu ffilm fel dewis arall. Rhoddir rhybudd digonol pan wneir hynny.

**B. Trafod cynnwys yr asesiad diarholiad. [20]**

Gofynnir i ymgeiswyr ymateb yn unigol i gwestiynau cyffredinol ar y Pecyn a luniwyd ganddynt yn Uned 2.

Disgwylir i ymgeiswyr ymateb i agweddau fel a ganlyn:

- cynnwys y Pecyn
- dewis y testun
- rheswm dros ddewis y testun
- y gwahanol symbyliadau
- y gwaith ymchwil
- darnau unigol y Pecyn

Arholir yr ymgeiswyr yn unigol yn yr adran hon.

© WJEC CBAC Cyf.

## A. Trafod ffilm Patagonia

Enghreifftiau o gwestiynau posibl gan gynnwys rhai awgrymiadau ar sut i ymateb iddynt.

### 1. Adroddwch stori'r ffilm

Byddai disgwyl i'r ymgeiswyr drafod:

- y ddwy stori sy'n cydredeg yn y ffilm – y naill yng Nghymru a'r llall ym Mhatagonia
- y technegau penodol a ddefnyddiwyd i adrodd stori'r ffilm
- effeithiolrwydd y technegau
- y defnydd o lun, sain a cherddoriaeth yn y ffilm
- y golygfeydd penodol ym Mhatagonia a Chymru
- y golygfeydd sydd wedi gwneud argraff arnynt pan oedd Cerys a'r bachgen ifanc (Alejandro) yn ymweld â Chymru
- y gwahanol groeso yng Nghymru i Cerys ac Alejandro

### 2. Trafodwch gymeriad Gwen

Byddai disgwyl i'r ymgeiswyr drafod:

- ei chefndir
- ei phersonoliaeth, cryfder neu ddiffyg cryfder ei chymeriad
- y berthynas rhyngddi a'i chariad Rhys
- y berthynas newydd â Mateo
- y berthynas rhyngddi â chymeriadau eraill y ffilm
- ei hymateb i fywyd ym Mhatagonia
- ei phryderon / ei hansicrwydd wrth ymateb i'w sefyllfa
- ei datblygiad yn y ffilm
- stori'r ffilm

### 3. Awgrymiadau am gwestiynau eraill

- strwythur y ffilm
- perthynas rhwng y cymeriadau a'i gilydd
- pwysigrwydd rhai cymeriadau
- bywyd ym Mhatagonia a Chymru
- y modd y sonnir am hanes boddi Tryweryn a Chapel Celyn
- hanes brwydr y Falklands
- y defnydd o dristwch / symboliaeth
- y defnydd o wrthgyferbyniad yn y ffilm
- gwrthdaro yn y ffilm
- y gwahanol themâu
- arwyddocâd rhai themâu

Awgrymiadau'n unig yw'r rhain. Disgwylir i ymgeiswyr fynegi eu barn eu hunain ond rhaid cyfiawnhau barn â thystiolaeth o'r testun.

© WJEC CBAC Cyf.

## B. Trafod cynnwys yr asesiad diarholiad

Enghreifftiau o gwestiynau posibl i agor trafodaeth rhwng yr arholwr a'r ymgeisydd. Bydd cynnwys a natur yr asesiad diarholiad yn llywio ambell gwestiwn ychwanegol.

- Sut aethoch chi ati i ddewis y testun hwn?
- Amlinellwch gynnwys y Pecyn yn fras.
- Mae tipyn o waith cefndir ac ymchwil yn y gwaith. Sut gwnaethoch chi hyn?
- P'un ydy'ch hoff ddarn? Pam?
- Fwynheuoch chi wneud y Pecyn?
- Oedd y darn dan amodau arbennig yn anodd?
- Fyddech chi'n dewis y tesun hwn eto?

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG: AIL IAITH**

**UNED 2**

**ASESIAD DIARHOLIAD – TASGAU YSGRIFENEDIG**

**CANLLAWIAU I ATHRAWON**

© WJEC CBAC Cyf.

**Y Dasg**

Llunio Pecyn ar **un** o'r canlynol:

ardal benodol yng Nghymru
elfen gymdeithasol e.e. chwaraeon
elfen ddiwylliannol e.e. y theatr yng Nghymru
elfen alwedigaethol e.e. gweithfeydd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd
elfen hanesyddol e.e. cestyll Cymru, Y Mabinogi
elfen wleidyddol e.e. Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Gall y testun a ddewisir fod o ddiddordeb lleol neu genedlaethol, yn draddodiadol neu'n gyfoes ei apêl.

**Canllawiau i'r Dasg**

Bydd y Pecyn yn canolbwyntio ar, ac yn cyflwyno i'r darllenydd elfennau o'r testun y mae'r ymgeisydd wedi ymddiddori ynddynt gan gynnwys sylwadau personol a pherthnasol wrth wneud hynny. Wedi darllen y gwaith dylai'r darllenydd fod yn deall y testun dan sylw ac yn gwybod am agwedd yr ymgeisydd tuag at y testun.

Rhaid i'r Pecyn Gwybodaeth gynnwys **3** darn estynedig o'r ffurfiau canlynol:

- adroddiad / erthygl
- portread
- stori
- sgwrs / cyfweliad
- llythyr
- blog
- dyddiadur

Bydd angen:

- gwreiddioldeb wrth fynd ati i greu'r tri darn
- gweld barn ac ymateb personol ymhlyg yn y gwaith
- amrywio patrymau brawddegol
- cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus
- ysgrifennu'n gywir, yn eglur ac yn raenus gan arddangos ystod o adnoddau iaith
- defnyddio gwybodaeth o ramadeg yn effeithiol mewn amryfal gyd-destunau
- dangos ymwybyddiaeth o wahanol gyweiriau iaith a defnyddio'r iaith yn hyderus mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion gan roi ystyriaeth i'r pwrpas a'r gynulleidfa
- **1** darn gael ei gwblhau fel tasg o dan amodau arbennig

Rhaid i'r testun fod yn Gymreig.

Disgwylir i'r athro/athrawes farcio pob darn allan o 20 gan roi marc terfynol allan o 60.

Dylai'r pecyn cyfan fod **rhwng 1,500 a 2,000** o eiriau.

© WJEC CBAC Cyf.

**Tasg dan amodau arbennig**

Dylid caniatáu **dwy awr** ar gyfer cwblhau'r dasg a wneir o dan amodau arbennig. Dylid sicrhau bod safon y tasgau a osodir yn gymesur. "Amodau arbennig" yw amodau tebyg i rai arholiad cyffredin. Ni chaiff ymgeiswyr ymgynghori â'i gilydd. Caniateir mwy o amser i ddisgyblion ag anghenion arbennig. Dylid rhoi rhybudd o wythnos i ymgeiswyr cyn iddynt gyflawni'r dasg o dan amodau arbennig. Caniateir defnyddio geiriadur neu ddeunydd pwrpasol e.e. pwyntiau bwled byr sy'n cynnwys ystadegau, ffeithiau, enghreifftiau a dyfyniadau perthnasol wrth gyflawni'r dasg. Ni roddir caniatâd i ymgeiswyr fynd â deunydd cyflawn wedi ei baratoi i mewn i'r asesiad dan amodau arbennig.

Caiff pob darn o waith ei farcio pan gyflwynir ef i'r athro/athrawes yn ystod y cwrs. **Ni ddylai ymgeisydd ailysgrifennu tasg ffolio na'i chywiro wedi i'r athro/athrawes ei chywiro h.y. ni ddylid ar unrhyw gyfrif roi marc am waith fydd wedi'i gywiro mewn drafftiau cynt.** Dylai'r athro/athrawes adael y cywiriadau a'r sylwadau a gyfeiriwyd at yr ymgeisydd ar dasgau.

Cyn cyflwyno'r marciau dylai athrawon adolygu'r marciau a ddyfarnwyd i sicrhau bod cyfanswm y marciau yn adlewyrchu'n deg y safon am y tasgau i gyd. Os oes anghysondebau dylai'r athro/athrawes gynnwys nodyn o eglurhad.

Ar gyfer y tasgau a gyflwynir dylid nodi'r canlynol:

- dyddiad y cyflwynwyd y dasg
- unrhyw nodiadau / sylwadau perthnasol i'r safonwr megis:
  - sut y cafodd y dasg ei chyflawni
  - yr hyn a roddwyd fel symbyliad gwreiddiol
  - unrhyw gymorth / arweiniad gan yr athro/athrawes
  - unrhyw ddeunydd cyfeiriol / ffynonellau a ddefnyddiwyd

**Safoni a Chymedroli**

Os oes mwy nag un grŵp dysgu rhaid sicrhau bod safoni mewnol yn digwydd fel bod safonau'n gyson ar draws y grwpiau dysgu.

Er mwyn sicrhau bod asesiadau yn cael eu safoni'n deg, clustnodir cymedrolwr allanol i'r ganolfan gan CBAC. Anfonir sampl o waith asesu diarholiad y ganolfan at y cymedrolwr ar ddechrau tymor yr haf. Dewisir y sampl gan CBAC ar ôl i'r ganolfan gyflwyno'r marciau ar-lein. Caiff pob canolfan adborth manwl yn dilyn y cymedroli.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG: AIL IAITH**

**UNED 3**

**DEFNYDDIO IAITH, A BARDDONIAETH**

***(Papur Ysgrifenedig)***

**CWESTIYNAU ENGHREIFFTIOL**

**(2 awr)**

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**
Llyfr ateb 8 tudalen

***ADDITIONAL MATERIALS***
*8 page answer book*

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**
Defnyddiwch inc neu feiro du.
Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.
Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.
Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

***INSTRUCTIONS FOR CANDIDATES***
*Use black ink or black ballpoint pen.*
*Answer **all** questions in Section A and Section B.*
*Write your answers in the separate answer book provided.*
*The marking will take into account the quality of written communication used in your answers.*

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**
Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
Ni chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

***INFORMATION FOR CANDIDATES***
*The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.*
*Copies of poetry and dictionaries are **not** permitted.*

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A

### Defnyddio Iaith

**1.** (i) Darllenwch yr erthygl papur bro isod sy'n sôn am siop newydd yn agor yn Ne Cymru.

Mae 10 camgymeriad yn yr erthygl wedi cael eu tanlinellu. Cywirwch y camgymeriadau sydd wedi cael eu tanlinellu. [10]

**Siop newydd *Bara Ni* yn agor cyn bo hir.**

Mewn pythefnos bydd busnes newydd, *Bara Ni* yn agor ar y Stryd Fawr <u>yn Casnewydd</u>. Tania a Jan sy'n agor y siop a <u>bydd</u> nhw'n gwerthu bara a chacennau ffres. Bydd caffi hefyd yn cynnig paned a phryd o fwyd yn ystod y dydd. Ond <u>roedd</u> y busnes yn fwy na siop fara syml. Bydd rhaid i bob un sy'n gweithio yn y siop <u>dilyn</u> hyfforddiant am 16 wythnos i ddysgu sgiliau pobi, gwerthu a rheoli. Dywedodd Jan Jones, rheolwraig y siop, 'Mae hwn yn gynllun cyffrous, ac yn bwysig iawn i <u>pobl</u> ifanc. <u>Mae</u> nhw'n cael cyfle i weithio mewn siop a mynd i'r coleg ar yr un pryd. Rydyn ni'n gwybod <u>bod mae</u> llawer o bobl ifanc eisiau dod i weithio gyda ni.' Dywedodd Cai Jones, 16 oed, 'Dw i'n gyffrous iawn. Mae'r swydd yn <u>rhoir</u> cyfle i mi ddysgu sgiliau newydd. <u>Mae</u> dim rhaid i fi fynd yn ôl i'r ysgol nawr. Galla i weithio a dysgu ar yr un pryd. Un diwrnod <u>hoffai</u> i agor fy musnes fy hun.' Mae'r siop ar agor 10.30 i 3.30 o ddydd Llun i ddydd Gwener. Galwch draw!

1.

2.

3.

4.

5.

6.

7.

8.

9.

10.

© WJEC CBAC Cyf.

(ii) Mae Alex Jones wedi cyflwyno sawl rhaglen ar y teledu gan gynnwys *The One Show*. Mae hi'n siarad am ei phrofiadau hi wrth sefyll arholiadau. Darllenwch y darn isod a newidiwch y **10 ffurf** sydd wedi eu tanlinellu i'r trydydd person. [20]

Adolygu gyda Alex Jones

'Roeddwn i'n drylwyr iawn a doeddwn i ddim yn meindio adolygu. Doedd fy rhieni ddim yn rhoi pwysau arna i. Byddwn i'n nerfus iawn cyn yr arholiad ond unwaith i mi gyrraedd yr ystafell roedd y nerfau wedi diflannu. Rydw i'n meddwl ei bod hi'n iawn bod yn nerfus achos mae'r adrenalin yn rhywbeth positif. Mae'n well gyda fi baratoi'n ofalus at arholiad a bod yn barod. Fy hoff bynciau i oedd Hanes a Drama. Roeddwn i'n hoffi ieithoedd hefyd, ond doeddwn i ddim cystal ym Mathemateg!'

1.

2.

3.

4.

5.

6.

7.

8.

9.

10.

© WJEC CBAC Cyf.

(iii) Mae cwmni teledu yn chwilio am gyflwynydd i gyflwyno rhaglen i blant ifanc. Darllenwch yr hysbyseb isod ar gyfer y swydd.
Ysgrifennwch lythyr ffurfiol yn ceisio am y swydd. [20]

Ysgrifennwch tua un ochr tudalen.

Cwmni teledu Ffalabalam yn chwilio am gyflwynydd teledu i'r rhaglen blant 5-8 oed 'Chwarae a Chwerthin'

Rhaid i chi:

- fwynhau bod o flaen camera
- siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn dda
- gweithio gyda phlant bach
- mwynhau sgriptio ac actio
- cynnig syniadau newydd i'r rhaglen
- defnyddio cyfrifiadur yn dda.

Os ydych chi eisiau bod yn gyflwynydd teledu, anfonwch lythyr yn nodi pam rydych chi eisiau'r swydd at
Mari Jones, Ffalabalam, 3 Heol y Castell, Caerdydd. CF11 7NN.

Cofiwch ddilyn canllawiau ysgrifennu llythyr ffurfiol. Rhoddir marciau am ysgrifennu cywir. Cynlluniwch eich gwaith yn ofalus cyn dechrau.

© WJEC CBAC Cyf.

## Adran B

## Barddoniaeth

**2.** Darllenwch yn ofalus y pennill canlynol o'r gerdd Caerdydd gan Iwan Rhys ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

Ar hewlydd Caerdydd mae dôr
i'r Gymraeg yma ar agor,
ac nid dôr gilagored:
yn Nhrelái mae'r ddôr ar led;
ydy wir, mae iaith y dydd
yn Nhreganna ar gynnydd.

(i) Beth ydy prif neges y pennill hwn a sut mae'n berthnasol i weddill y gerdd? [25]
Ysgrifennwch tua un ochr tudalen.

(ii) Yn y gerdd mae'r bardd yn defnyddio'r technegau canlynol:

* odli
* goferu
* trosiad

Trafodwch pa mor effeithiol ydy'r technegau uchod yn y gerdd hon. [25]
Ysgrifennwch tua un ochr tudalen.

(iii) Yn ôl Iwan Rhys, mae 20% o blant Caerdydd yn siarad Cymraeg. Beth ydy'ch barn chi am y Gymraeg yn eich cymdeithas chi?

Dylech chi sôn am:

- bwy sy'n siarad Cymraeg yn eich ardal chi
- ble gallwch chi fynd i siarad Cymraeg
- beth hoffech chi ei weld yn yr ardal i'ch helpu chi i ymarfer eich Cymraeg
- y cyfleoedd sydd ar gael i wneud pethau yn y Gymraeg – cymdeithasau, hobïau, chwaraeon [20]

Ysgrifennwch tua un ochr tudalen.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG: AIL IAITH**

**UNED 4**

**Y DDRAMA A LLAFAREDD**

***(Arholiad Llafar)***

**NODIADAU I ATHRAWON A CHWESTIYNAU ENGHREIFFTIOL**

(Tua 45 munud i grŵp o 3)

© WJEC CBAC Cyf.

**Trefn yr arholiad**

**A. Byw yn Gymraeg [20]**

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu trafod y meysydd canlynol ar ôl ymwneud â nhw'n rheolaidd yn ystod y cwrs:

- y Gymraeg yn y gymdeithas
- ymweliadau gan siaradwyr gwadd
- darlledu ar y we fyd eang
- y cyfryngau cymdeithasol
- y theatr
- ffilmiau Cymraeg
- newyddiaduraeth Gymraeg gan gynnwys cylchgronau, Y Cymro, Golwg, Lingo, papurau bro

**B. Trafod drama [30]**

Sera Moore Williams: *Crash*

Gall yr arholwr ofyn i'r ymgeiswyr ymdrin â rhai o'r pynciau a ganlyn:

- dadansoddi cymeriadau, olrhain eu datblygiad a chymharu cymeriadau â'i gilydd
- manylu ar olygfeydd allweddol
- damcaniaethu ynglŷn â bwriadau'r dramodydd
- manylu ar y themâu a geir yn y ddrama
- mynegi barn ac ymateb i'r gwaith fel cyfanwaith

Bydd rhyddid i'r ymgeiswyr ymateb yn bersonol yn ogystal â thrafod dehongliadau eraill (disgyblion eraill, athrawon a beirniaid llenyddol) a dylid eu hyfforddi i ddyfynnu a defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn briodol.

**C. Ymateb i gwestiynau ar themâu penodol fydd yn y gwahanol destunau a astudiwyd yn ystod y cwrs cyfan. (Cwestiwn synoptig) [25]**

Bydd yr arholwr yn gofyn cwestiynau i'r ymgeiswyr a fydd yn mynnu eu bod yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng y gwahanol destunau ar draws y fanyleb.

Gellir trafodir y themâu canlynol:

Teulu
Perthynas
Cyfrifoldeb
Cariad
Cyfathrebu

Arholir yr ymgeiswyr yn unigol yn Adran C.
Bydd gan CBAC yr hawl i newid y ddrama a astudir. Rhoddir rhybudd digonol pan wneir hynny.

© WJEC CBAC Cyf.

**A. Byw yn Gymraeg**

Enghreifftiau o gwestiynau posibl i agor trafodaeth gan yr arholwr.

Ydych chi wedi cael y cyfle i weld cyflwyniad theatrig yn ystod y cwrs?
Faint o Gymraeg ydych chi'n ei glywed yn eich ardal chi?

**B. Trafod Drama *Crash***

Enghreifftiau o gwestiynau posibl gan gynnwys rhai awgrymiadau ar sut i ymateb iddynt.

**1. Trafodwch gymeriad Els (Elin).**

Byddai disgwyl i'r ymgeiswyr drafod:

- ei magwraeth a'i chefndir
- ei pherthynas â'i rhieni
- ei chymeriad hunanol
- dylanwad Wes arni
- ei chyfeillgarwch â Rhys
- y temtasiynau sy'n ei hwynebu
- ei bwriadau mewn bywyd
- ei phersonoliaeth oriog
- ei datblygiad yn y ddrama a'i pherthynas â'r ddau fachgen

**2. Manylwch ar y themâu a amlygir yn y ddrama.**

Byddai disgwyl i'r ymgeiswyr drafod:

- gwreiddiau
- cyfrifoldeb
- gofidiau pobl ifanc yn eu harddegau
- dylanwad cyfoedion
- gwrthryfela ieuenctid
- effaith alcohol a chyffuriau
- tyndra rhwng cymeriadau
- cariad a rhamant

**3. Awgrymiadau am gwestiynau eraill.**

- Yn yr olygfa yn ffreutur yr ysgol ar ddechrau'r ddrama mae Rhys ac Els yn sgwrsio. Beth ydy Barn Rhys am Wes?
- Yn iard yr ysgol mae Wes yn siarad ag Els. Beth mae Els yn ei ddweud am ei thad?
- Sut ddarlun ydyn ni'n ei gael o dad Rhys?
- Mae Wes a Rhys yn cweryla ar iard yr ysgol. Mae Wes yn dweud *'wel, ydy dy dad yn dy fwrw di?'* Beth sydd wedi digwydd?
- Trafodwch un o'r golygfeydd allweddol yn eich barn chi.
- Dadansoddwch y gwrthdaro rhwng y cymeriadau.
- Trafodwch ofnau'r tri chymeriad yn y ddrama.
- Pa olygfa yw'r uchafbwynt yn eich barn chi?
- Trafodwch gymeriadau Wes a Rhys gan fanylu ar bersonoliaethau gwahanol y ddau.

© WJEC CBAC Cyf.

- Ai disgwyliadau rhieni yw un o brif themâu'r ddrama?
- Trafodwch ddiweddglo penagored y ddrama.
- Trafodwch yr hiwmor yn y ddrama.
- Sut, yn eich barn chi, mae'r awdures yn llwyddo i ddal sylw'r gynulleidfa tan ddiwedd y ddrama?
- Ydy'r ddrama yn delio â themâu sydd yn bwysig i bob oes?
- Ydy'r ddrama yn cynnig atebion i broblemau'r cymeriadau?
- Trafodwch yr iaith a ddefnyddir yn y ddrama.
- Wrth sgwrsio mae Els yn dweud wrth Rhys *'Dwi ddim isie dy weld ti 'to.'* Beth sydd wedi digwydd?
- Yn y disgo pam mae Wes ac Els yn cweryla? Mae Wes yn dweud *Dwi wedi cael digon.* Pam mae'r berthynas rhyngddynt wedi newid.

Awgrymiadau'n unig yw'r rhain. Disgwylir i ymgeiswyr fynegi eu barn eu hunain ond rhaid cyfiawnhau barn â thystiolaeth o'r testun.

**C. Ymateb i gwestiynau ar themâu penodol (synoptig)**

Enghreifftiau o gwestiynau posibl i agor trafodaeth rhwng yr arholwr a'r ymgeisydd.

- Beth yn eich barn chi yw themâu pwysicaf y ddrama *Crash*? Trafodwch unrhyw lenyddiaeth a ddarllenoch chi sy'n delio â'r themâu hyn.
- Wrth drafod y ddrama *Crash* dywedoch chi mae yn eich barn chi y brif thema yw cariad a rhamant / cyfrifoldebau pobl ifanc / gwrthryfela / effeithiau cyffuriau ac alcohol / perthynas cyfoedion â'i gilydd / diffyg cyfathrebu rhwng pobl ifanc a rhieni. Ydy'r thema hon mewn unrhyw lenyddiaeth / lunyddiaeth arall a welsoch?

© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG: AIL IAITH**

**UNED 5**

**Y GYMRAEG YN Y GYMDEITHAS A THRAWSIEITHU**

***(Papur Ysgrifenedig)***

**CWESTIYNAU ENGHREIFFTIOL**

(2 awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**
Llyfr ateb 8 tudalen
***ADDITIONAL MATERIALS***
*8 page answer book*

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**
Defnyddiwch inc neu feiro du.
Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.
Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.
Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

***INSTRUCTIONS FOR CANDIDATES***
*Use black ink or black ballpoint pen.*
*Answer **all** questions in Section A and Section B.*
*Write your answers in the separate answer book provided.*
*The marking will take into account the quality of written communication used in your answers.*

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**
Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
Atgoffir chi mai papur synoptig yw hwn ac y bydd felly'n profi dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau o'r pwnc.
**Ni** chaniateir geiriaduron.

***INFORMATION FOR CANDIDATES***
*The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.*
*You are reminded that this paper is synoptic and so will test understanding of the connections between the different elements of the subject.*
*Dictionaries are **not** permitted.*

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A

## Y Gymraeg yn y Gymdeithas

1. (i) Rydyn ni fel unigolion yn gallu gwneud pethau positif i helpu dyfodol yr iaith Gymraeg. Trafodwch mewn tua 200 o eiriau.

Gallech chi ddewis cyfeirio, er enghraifft, at:
- rai pobl o'r gorffennol sy'n bwysig yn hanes yr iaith Gymraeg
- rhai pobl yn eich ardal chi heddiw
- eich defnydd chi o'r iaith Gymraeg.

[20]

(ii) Mae sgiliau Cymraeg yn gallu helpu pobl i gael gwaith yng Nghymru. Trafodwch mewn tua 200 o eiriau.

Gallech chi ddewis cyfeirio, er enghraifft, at:
- Lywodraeth Cymru a gwaith Comisiynydd y Gymraeg
- swyddi a gweithleoedd dwyieithog a Chymraeg
- enghreifftiau o rai pobl yn eich ardal chi sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu gwaith.

[20]

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B

### Trawsieithu

2. Darllenwch yr erthygl ganlynol sy'n trafod addysg arddegwyr.

Ysgrifennwch lythyr yn Gymraeg (tua 350 o eiriau) at olygydd cylchgrawn Cymraeg yn ymateb i'r erthygl. Ni ddylid cyfieithu'r testun. Wrth ysgrifennu'r llythyr cofiwch ddefnyddio'r gwahanol batrymau brawddegol rydych wedi eu dysgu yn ystod y cwrs. (Cwestiwn synoptig) [40]

Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn yr erthygl a'r eirfa isod **dylech drafod:**

- **y ffeithiau a'r ystadegau yn y darn;**
- **eich ymateb chi i gynnwys yr erthygl.**

Careers Wales – *Gyrfa Cymru*
employment – *gwaith*
training – *hyfforddiant*
teenagers – *glaslanciau*
according – *yn ôl*
survey – *arolwg*
annual – *blynyddol*
on behalf – *ar ran*
government – *llywodraeth*
compared – *o'i gymharu*
local education authorities – *awdurdodau addysg lleol*
improvement – *gwelliant*
increase – *cynnydd*
reductions / drop – *gostyngiad*
advisers – *cynghorwyr*
spokesperson – *llefarydd*
encouraging – *yn galonogol*
particularly – *yn enwedig*
economic climate – *hinsawdd economaidd*
categorised – *wedi'u dosbarthu*
worry – *gofid*
further education – *addysg bellach*
competitive job market – *marchnad waith gystadleuol*
support – *cefnogaeth*
unemployment – *diweithdra*

© WJEC CBAC Cyf.

## More teenagers staying in education, says Careers Wales

The number of 16 year-olds not in education, employment or training in Wales has fallen as more teenagers choose to stay on in school according to latest survey.

The annual survey, on behalf of the Welsh government, looks at the number of pupils not in education, employment or training (*Neets).

A survey of 65,450 high school pupils shows 85.1% continued their education beyond Year 11 last year compared with 82.8% in the previous year.

All but one of Wales' 22 local education authorities reported a fall in Year 11 Neets. Councils like Blaenau Gwent and Merthyr Tydfil were among those showing the biggest improvement.

Ceredigion recorded the only increase in 16 year old Neets while numbers remain high in Cardiff (7.1%) and Newport (6.6%) despite steady reductions.

Advisers say over the last five years they have seen an 8% increase in those staying in education.

A Careers Wales spokesperson called the result encouraging "particularly in the current economic climate."

A total of 4.4% of **Year 11** pupils were regarded as Neets in the last academic year. This figure was down from 5.4% in the previous year.

The figure of **Year 12** pupils categorised as Neets has dropped to a five year low of 2.5% from about 3%.

Data shows a slight drop in the number of **Year 13** pupils who become Neets. That is 6.5% in 2011 compared with 6.6% the previous year with the pattern showing an overall increase in the past five years.

A spokesperson said, "Our main worry is with the number of young people who become Neets after leaving further education at 18.

A competitive job market is an important factor but I believe more could be done to make sure that young people receive the best support.

High level of youth unemployment is still a major problem in Wales."

*Neets = Not in education, employment or training

© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG: AIL IAITH**

**UNED 6**

**DEFNYDDIO IAITH A'R STORI FER**

***(Papur Ysgrifenedig)***

**CWESTIYNAU ENGHREIFFTIOL**

(2 awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**
Llyfr ateb 12 tudalen

***ADDITIONAL MATERIALS***
*12 page answer book*

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**
Defnyddiwch inc neu feiro du.
Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.
Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.
Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

***INSTRUCTIONS FOR CANDIDATES***
*Use black ink or black ballpoint pen.*
*Answer **all** questions in Section A and Section B.*
*Write your answers in the separate answer book provided.*
*The marking will take into account the quality of written communication used in your answers.*

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**
Rhodddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
Atgoffir chi mai papur synoptig yw hwn ac y bydd felly'n profi dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau o'r pwnc.
**Ni** chaniateir defnyddio copïau o'r straeon byrion na geiriaduron yn yr arholiad hwn.


***INFORMATION FOR CANDIDATES***
*The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.*
*You are reminded that this paper is synoptic and so will test understanding of connections between the different elements of the subject.*
*Copies of the short stories and dictionaries are **not** permitted.*

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A

### Defnyddio Iaith

**1.** (i) Rydych wedi derbyn yr e-bost canlynol gan Swyddog Personél y cwmni rydych yn gweithio iddo ynglŷn â threfnu cyrsiau iaith ‘Y Gymraeg yn y Gweithle’. Ysgrifennwch ymateb i gynnwys yr e-bost. (Tua 150 o eiriau) [20]




Rydw i wedi ceisio ffonio eich ffôn symudol sawl gwaith yn ystod y dyddiau diwethaf ond doedd dim ateb. Rydych yn brysur iawn, siŵr o fod.

Gobeithio eich bod wedi mwynhau’r cwrs Cymraeg yr wythnos diwethaf a’ch bod wedi cael cyfle i ymarfer siarad Cymraeg yn eich gweithle.

Mae cyrsiau’r tymor hwn wedi gorffen erbyn hyn ac maen nhw wedi bod yn llwyddiant mawr yn fy marn i. Rydw i'n gobeithio’ch bod yn cytuno. Cafodd pawb brofiadau gwych ac roedden nhw wedi mwynhau pob eiliad.

Cynhelir cyfarfod wythnos nesaf i lunio rhaglen ar gyfer y tymor nesaf ac fe hoffwn eich gwahodd i’r cyfarfod. Allwch chi adael i mi wybod y diwrnod a’r amser a fydd yn gyfleus i chi? Tybed oes gennych chi syniadau ynglŷn â’r math o weithgareddau dylen ni eu hystyried?

A wnewch chi ymateb i’r e-bost hwn cyn diwedd yr wythnos hon os gwelwch yn dda?

Diolch
Mari

Wrth i chi ymateb i e-bost Mari dylech chi:

- ddweud pam rydych wedi bod yn brysur
- rhoi rheswm arall pam nad oedd ateb o’ch ffôn symudol
- cadarnhau eich bod wedi mwynhau’r cwrs a sut rydych wedi defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle
- ymateb i lwyddiant y cwrs a pham
- cynnig diwrnod ac amser sydd yn gyfleus i chi fynychu’r cyfarfod
- awgrymu gweithgareddau ar gyfer cwrs y tymor nesaf

© WJEC CBAC Cyf.

(ii) Mae rheolwr y ffatri rydych chi'n gweithio ynddi wedi gofyn i chi ysgrifennu ffurf gywir y ferf neu'r ffigur sy mewn cromfachau yn yr adroddiad isod a fydd yn ymddangos yn y cylchlythyr nesaf. [10]

| |
|---|
| Llynedd (mynd) trip blynyddol y ffatri i Aber Hyfryd. (Cael) pawb amser ardderchog yn torheulo ar y traeth ac wedyn (nofio) y plant yn y môr cyn mynd i'r ffair. (Cyrraedd) ni adref yn ddiogel am (09:45). (Diolch) i'r arweinydd am wneud y trefniadau ardderchog gan Mr James Davies, y rheolwr.<br><br>Ar yr 11eg o'r mis nesaf, (bydd) ni'n mynd i Gaerdydd i ymweld â'r Senedd a chael cyfle i grwydro'r Bae. (Cytuno) Siân, ysgrifenyddes Mr Davies i gasglu'r arian. (Bydd) chi'n gallu talu blaendal iddi hi yn y cyfarfod staff ddydd Iau nesaf os (hoffi) chi fynd ar y trip eleni.<br><br>Bydd cyfle hefyd i gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb yn y Senedd a bydd gwobr o £100 i'r aelod fydd yn gofyn y cwestiwn mwyaf diddorol yn ystod y sesiwn. |

(i) ______________________________

(ii) ______________________________

(iii) ______________________________

(iv) ______________________________

(v) ______________________________

(vi) ______________________________

(vii) ______________________________

(viii) ______________________________

(ix) ______________________________

(x) ______________________________

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B

### Y Stori Fer

**2.** (i) Yn y darn isod o’r stori fer 'Angladd yn y Wlad' gan Ioan Kidd, mae’r adroddwraig a Mr Tremeer yn wynebu problemau sy’n deillio o’r system Apartheid oedd yn bodoli yn Ne Affrica ar y pryd. **Â pha un o’r ddau gymeriad ydych chi’n cydymdeimlo a pham?** Tua 100 o eiriau. [15]

Gallech sôn am broblemau sy’n deillio o gariad a ffyddlondeb teuluol, diffyg cyfathrebu, statws swyddogol, cyfrifoldeb unigolion, problemau hiliol/apartheid.

(ii) Yn y darn isod technegau amlwg iawn yw’r defnydd o’r person cyntaf, gwrthgyferbyniad ac ailadrodd. Yn eich barn chi a yw’r technegau hyn yn effeithiol ac yn ychwanegu at lwyddiant y stori? Tua 100 o eiriau. [15]

(iii) Un o themâu’r darn isod yw cyfrifoldeb unigolion i helpu ei gilydd. Manylwch ar y thema **cyfrifoldeb unigolion tuag at ei gilydd** trwy gyfeirio at unrhyw lenyddiaeth a ddarllenwyd neu lunyddiaeth a wyliwyd gennych sy’n ymdrin â’r un thema. Tua 300 o eiriau. (Cwestiwn synoptig) [40]

Bydda i’n mynd i swyddfa’r heddlu bob dydd cyn mynd i’r gwaith, ond does neb yno byth yn dweud gair. Bydda i’n aros gyda’r mamau eraill am ryw ddwyawr cyn mynd i dŷ Mr Tremeer, y plisman. Ydw, rwy’n dal i lanhau tŷ Mr Tremeer a gofalu am anghenion Peter, ei fab. Pymtheng mlynedd o wasanaeth. Pymtheng mlynedd o fagu mab rhywun arall er bod hwnnw bellach yn ddyn. Mae Peter yntau’n dad erbyn hyn. Mae e’n briod ac mae gyda fe wraig a babi bach. Mab naw mis oed a hwnnw’n tynnu ar ôl ei dad. Maen nhw’n deulu digon serchus. Maen nhw’n gyflogwyr digon piwr. Mae eu bywyd yn ddi-boen a’u byd i gyd yn wyn.

Y bore ‘ma, yn ôl fy arfer, daliais y bws i swyddfa’r heddlu ac aros yno gyda’r lleill. Ond yn ôl eu harfer ni ddywedodd y plismyn ddim. Arhosais am ddwyawr, ac wrth i mi adael i fynd i’r gwaith gwelais Mr Treemer yn cyrraedd. Mae e’n drydydd o ran pwysigrwydd yn y swyddfa honno. Mae e’n ddyn pwysig iawn. Edrychodd yn syn arna i ond ni ddywedodd yr un gair.
Rwy’n poeni’n ofnadwy am fy meibion.

Yn hwyr y prynhawn 'ma dychwelodd Mr Tremeer i’r tŷ. Roeddwn i ar fin mynd tua thre. Gofynnodd beth oedd enwau fy meibion. Llamodd fy nghalon. Atebais ddwywaith. Yna troes heb ofyn rhagor ac aeth i’w swyddfa ym mhen draw’r cyntedd. Arhosais innau ar ganol llawr y gegin a’m calon yn curo yn fy mhen. Eisoes gallwn ddychmygu fy meibion yn rhedeg tuag ata i. Gallwn deimlo’u hwynebau glân yn gwasgu yn erbyn fy nghorff. Ar ôl pymtheng mlynedd o wasanaeth i Mr Tremeer, hon yn anad dim, fe gredwn, oedd ei weithred fwya cymwynasgar. Pan ddaeth e’n ôl i’r gegin rhuthrais tuag ato. Dywedodd yn ei lais digyffro fod fy meibion yn y ddalfa yn agos i fan hyn a bod y tri wedi cael eu harestio o dan bwerau arbennig y wladwriaeth. Doedd gyda fe ddim rhagor o wybodaeth.

Fe goda i’n fore bore fory pan fydd y dreflan gyfan o hyd yn breuddwydio’u delweddau du a gwyn. Ac fe gerdda i drwy’r rhesi unffurf, digymeriad, heibio i gatrefi fy nghymdogion, i ddala'r bws i dŷ Mr Tremeer yn y ddinas wen. Ac yno af i ati fel arfer i wneud fy ngwaith. A phan fydd hi’n dawel, tua diwedd y bore, af i lan i ystafell y babi bach. Fe ddoda i siôl amdano a mynd ag e at Martha yn y dreflan ddu. Ac yno y caiff ei gadw hyd nes i’m meibion ddod adre.

**CYMRAEG: AIL IAITH**

**UNED 1**

**Y FFILM A LLAFAREDD**

***(Arholiad Llafar)***

**CYNLLUN MARCIO**

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN A – Trafod ffilm**

Bydd yr ymgeiswyr yn:

| **Ystod marciau** | **AA1** | **Ystod marciau** | **AA2** |
|---|---|---|---|
| Adran A<br>16-20 | • cydadweithio ag eraill yn hyderus<br>• arddangos blaengaredd wrth gynnal ac ymestyn trafodaeth yn ddigymell<br>• ymateb i gyfraniadau eraill yn llawn trwy gytuno/ anghytuno a datblygu ar y cyfraniadau<br>• ymresymu'n berthnasol<br>• mynegi barn yn hyderus ac yn cefnogi'r farn honno drwy resymu craff<br>• cyfathrebu'n rhwydd ac yn hyderus<br>• ynganu'n gywir ac yn glir<br>• defnyddio cystrawen lafar naturiol gywir ac adnoddau iaith sicr yn briodol | Adran A<br>16-20 | • arddangos gwybodaeth fanwl o'r ffilm<br>• cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at olygfeydd perthnasol a defnyddio nifer o ddyfyniadau addas<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol ac yn dangos dealltwriaeth ohonynt trwy eu cyflwyno'n gywir a chydlynol<br>• cyfleu syniadau a dadleuon yn glir ac yn rhesymegol<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn o themâu'r ffilm gan ddadansoddi ac ymresymu'n ddeallus<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn o dechnegau'r ffilm |
| Adran A<br>13-15 | • cydadweithio'n dda ag eraill<br>• arddangos blaengaredd wrth gynnal trafodaeth<br>• ymateb i gyfraniadau eraill yn ddeallus wrth gytuno/ anghytuno a datblygu ar y cyfraniadau<br>• ymresymu'n synhwyrol<br>• mynegi barn yn hyderus gan gefnogi'r farn honno a rhesymau perthnasol<br>• cyfathrebu'n rhwydd<br>• ynganu'n gywir<br>• defnyddio cystrawen lafar gywir ac adnoddau iaith priodol | Adran A<br>13-15 | • arddangos gwybodaeth dda o'r ffilm<br>• cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at olygfeydd perthnasol a defnyddio dyfyniadau addas<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir a chydlynol<br>• arddangos dealltwriaeth o themâu'r ffilm gan ymresymu'n ddeallus<br>• arddangos dealltwriaeth o dechnegau'r ffilm<br>• cyfleu a datblygu'r prif syniadau a dadleuon yn drefnus, ac yn rhesymegol<br>• cyflwyno dadleuon deallus gan ymateb yn briodol |

© WJEC CBAC Cyf.

| **Ystod marciau** | **AA1** | **Ystod marciau** | **AA2** |
|---|---|---|---|
| Adran A 10-12 | • cydadweithio ag eraill yn effeithiol<br>• dangos parodrwydd i gynnal sgwrs<br>• ymateb i gyfraniadau eraill yn briodol wrth gytuno/ anghytuno a datblygu ambell waith ar y cyfraniadau<br>• mynegi barn yn effeithiol ac yn cefnogi'r farn honno a thystiolaeth yn achlysurol<br>• cyfathrebu'n ddiddorol<br>• ynganu'n eithaf clir<br>• gwneud defnydd da o amrywiaeth o adnoddau iaith | Adran A 10-12 | • arddangos gwybodaeth helaeth o'r ffilm<br>• cyflwyno tystiolaeth yn achlysurol gan gyfeirio at ambell olygfa berthnasol gan ddefnyddio ambell ddyfyniad/aralleiriad addas<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth o brif themâu'r ffilm<br>• arddangos dealltwriaeth o brif dechnegau'r ffilm<br>• datblygu'r prif syniadau yn drefnus<br>• cyflwyno dadleuon yn ddeallus |
| Adran A 7-9 | • cydadweithio ag eraill, ond gyda mynegiant petrus/herciog ar adegau<br>• cynnig sylwadau perthnasol<br>• ymateb yn syml i gyfraniadau eraill<br>• mynegi barn uniongyrchol yn glir<br>• cytuno/anghytuno'n fras<br>• cyfathrebu'n ddigonol i ateb gofynion y dasg<br>• ynganu'n dderbyniol<br>• dangos ymwybyddiaeth o ddulliau cyfoethogi mynegiant<br>• ymdrechu i ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau iaith | Adran A 7-9 | • arddangos gwybodaeth o'r ffilm gan gyflwyno ffeithiau perthnasol yn gywir<br>• cyfeirio weithiau at olygfeydd perthnasol penodol gan ddefnyddio aralleiriad neu ddyfyniadau addas ar adegau<br>• arddangos peth dealltwriaeth o brif themâu'r ffilm<br>• arddangos peth dealltwriaeth o brif dechnegau'r ffilm<br>• datblygu rhai syniadau er y bydd tueddiad i adleisio syniadau a barn eraill ac i ail adrodd y cynnwys<br>• cyflwyno rhai dadleuon yn synhwyrol |

© WJEC CBAC Cyf.

| **Ystod marciau** | **AA1** | **Ystod marciau** | **AA2** |
|---|---|---|---|
| Adran A<br>4-6 | • siarad ag eraill<br>• cynnig rhai sylwadau elfennol iawn<br>• ymateb yn foel i gyfraniadau eraill<br>• mynegi barn uniongyrchol<br>• mynegi cytundeb/ anghytundeb yn foel, gan amlaf heb resymau<br>• cyfathrebu'n ddigonol i wneud eu hunain yn ddealladwy i'r aseswr<br>• ynganu'n ddealladwy<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau sylfaenol<br>• amrywio amserau a ffurfiau berfau ar adegau | Adran A<br>4-6 | • arddangos gwybodaeth o gynnwys y ffilm drwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• dangos tueddiad i ail adrodd cynnwys y ffilm<br>• cynnwys rhai enghreifftiau o gyfeirio'n benodol at olygfeydd<br>• cyfeirio'n fras at rai themâu penodol yn y ffilm<br>• cyfeirio'n fras at rai technegau penodol yn y ffilm<br>• cyflwyno dadleuon syml iawn |
| Adran A<br>0-3 | • Bydd yr ymgeisydd yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau'n unig. | Adran A<br>0-3 | • Bydd yr ymgeisydd yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau'n unig. |

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B – Trafod cynnwys yr asesiad diarholiad**

| Gradd | AA1 |
|---|---|
| Adran B<br>16-20 | • cydadweithio â'r arholwr yn hyderus<br>• ymateb i gwestiynau/sylwadau'r arholwr yn llawn trwy gytuno/anghytuno'n berthnasol<br>• ymresymu'n berthnasol<br>• mynegi barn yn hyderus ac yn cefnogi'r farn honno trwy resymu craff<br>• cyfathrebu'n rhwydd ac yn hyderus<br>• ynganu'n gywir ac yn glir<br>• defnyddio cystrawen lafar naturiol ac adnoddau iaith sicr yn briodol<br>• defnyddio cystrawen lafar naturiol gywir ac adnoddau iaith sicr yn briodol. |
| Adran B<br>13-15 | • cydadweithio'n dda â'r arholwr<br>• ymateb i gwestiynau/sylwadau'r athro yn ddeallus trwy gytuno/anghytuno'n synhwyrol<br>• ymresymu'n synhwyrol<br>• mynegi barn yn hyderus gan gefnogi'r farn honno â rhesymau perthnasol<br>• cyfathrebu'n rhwydd<br>• ynganu'n gywir ac yn glir<br>• defnyddio cystrawen lafar gywir ac adnoddau iaith priodol. |
| Adran B<br>10-12 | • cydadweithio â'r arholwr yn effeithiol<br>• ymateb i gwestiynau/sylwadau'r arholwr yn briodol trwy gytuno/anghytuno'n syml<br>• mynegi barn yn effeithiol ac yn cefnogi'r farn honno â thystiolaeth yn achlysurol<br>• cyfathrebu'n ddiddorol<br>• ynganu'n glir<br>• gwneud defnydd da o amrywiaeth o adnoddau iaith. |
| Adran B<br>7-9 | • cydadweithio â'r rheolwr, ond gyda mynegiant petrus/herciog ar adegau<br>• ymateb yn syml i gwestiynau/sylwadau'r arholwr<br>• mynegi barn uniongyrchol yn glir<br>• cyfathrebu'n ddigonol i ateb gofynion y dasg<br>• ynganu'n dderbyniol<br>• dangos ymwybyddiaeth o ddulliau cyfoethogi mynegiant<br>• ymdrechu i ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau iaith. |
| Adran B<br>4-6 | • siarad â'r arholwr yn syml<br>• cynnig rhai sylwadau elfennol iawn<br>• ymateb yn foel i gwestiynau/sylwadau'r arholwr<br>• mynegi barn yn foel gan amlaf heb resymau<br>• cyfathrebu'n ddigonol i wneud eu hunain yn ddealladwy i'r arholwr<br>• ynganu'n ddealladwy<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau sylfaenol<br>• amrywio amserau a ffurfiau berfau ar adegau. |
| Adran B<br>0-3 | • Bydd yr ymgeisydd yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau'n unig. |

© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG: AIL IAITH**

**UNED 2**

**ASESIAD DIARHOLIAD – TASGAU YSGRIFENEDIG**

**CYNLLUN MARCIO**

© WJEC CBAC Cyf.

Dylid marcio pob darn allan o 20 gan roi marc terfynol allan o 60.

Bydd yr ymgeisydd yn:

| **Ystod marciau** | **AA3** |
|---|---|
